

IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 IONAWR 2020

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Derbyshire a/ac Jacobsen

7 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae Eitem 2 yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym mharagraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gellir gwahardd y cyhoedd cael o'r cyfarfod ar gais y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ystod trafodaethau ynghylch yr eitem hon.

8 : MATERION CERBYDAU HACNI/CERBYDAU LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD - Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Gwrandawriad Disgyblu 1

Roedd y gyrrwr wedi derbyn yr adroddiad ac nid oedd yn cytuno bod y wybodaeth yn gywir.

Adroddodd Tyst 1 ei fersiwn o'r digwyddiadau. Holodd cynrychiolydd y gyrrwr y tyst. Cadarnhaodd Tyst 1 fanylion y gyrrwr, rhif trwydded y tacsï a'r cerbyd tacsï ar noson y digwyddiad.

Awgrymodd cynrychiolydd y gyrrwr y gallai'r platiau rhif fod wedi'u clonio. Ni allai'r gyrrwr gofio unrhyw deithiau mewn cysylltiad â datganiad y tyst. Ychwanegodd nad oedd y gyrrwr wedi cael unrhyw gwynion o'r blaen.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor a allai'r gyrrwr gofio taith i Faesteg ac a oedd wedi cael ei dalu. Nododd y gyrrwr nad oedd yn gallu cofio teithiau a wnaeth yn ystod y penwythnosau Rygbi a pha deithiau a dderbyniwyd am daliad arian parod.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor i'r gyrrwr gadarnhau bod ei ddatganiad tyst yn gywir. Anghytunodd y gyrrwr â'r hyn a ddywedodd yn flaenorol ar y datganiad tyst. Dywedodd cynrychiolydd y gyrrwr nad yw pob trawsgrifiad yn gywir yn ei farn ef.

Trafododd yr Is-bwyllgor yr holl wybodaeth a dderbyniwyd. Ystyriodd Aelodau fod y tyst yn gredadwy.

PENDERFYNWYD - Bod trwydded y gyrrwr Cerbyd Hacni/ Llogi Preifat yn cael ei hatal am 10 diwrnod a bod gofyn i'r gyrrwr gwblhau'r Cwrs BTec mewn Cludo Teithwyr o fewn 3 mis.

(2) Gwrandawriad Disgyblu 2

Siaradodd Tyst 1 â'r Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y tyst yn ofidus ac yn cofio cael ei adael heb unrhyw arian i ddychwelyd adref. Dywedodd y ddau dyst yr adroddwyd am y digwyddiad cyn gynted ag aethant adref. Dywedant wrth yr heddlu, y banciau a'r cwmni telathrebu.

Holodd cynrychiolydd y gyrrwr Dyst 1. Nid oedd Tyst 1 yn cofio'r gyrrwr neu ddefnyddio'r app Find My Phone. Trwy fideo symudol cydnabu Tyst 2 wyneb y gyrrwr.

Ychwanegodd cynrychiolydd y gyrrwr nad oedd y gyrrwr wedi cael unrhyw gwynion o'r blaen, a chyflwynodd geirdaon i'r Is-bwyllgor. Cadarnhaodd y gyrrwr ei fod yn deall y polisi parthed eiddo coll.

Gofynnodd yr Is-bwyllgor a oedd y gyrrwr yn gallu cofio ble yr oedd adeg y digwyddiad oherwydd bod y fideo teledu cylch cyfyng wedi recordio bod ei gerbyd yn y cyffiniau. Dywedodd y gyrrwr ei fod yn ei weld yn anodd cofio ble roedd 3 mis yn ôl.

Ar ôl ystyried yn ofalus, rhoddodd yr Is-bwyllgor bwys sylweddol i'r datganiad tyst a chododd bryderon fod y gyrrwr wedi gadael ei deithwyr a oedd mewn sefyllfa fregus. Darparodd tystiolaeth Teledu Cylch Cyfyng gofnod o'r cerbyd yn y cyffiniau adeg y digwyddiad a bod y tacsï wedi codi'r tystion.

PENDERFYNWYD - y dylid atal y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Llogi Preifat am 20 diwrnod.

(3) Gwrandawriad Disgyblu 3

Gohiriwyd *sine die* - nid oedd y gyrrwr yn bresennol

(4) Gwrandawriad Disgyblu 4

Gohiriwyd *sine die* - nid oedd y gyrrwr yn bresennol

(5) Cais 1

Gohiriwyd *sine die* - nid oedd y gyrrwr yn bresennol

(6) Cais 2

Derbyniodd yr Is-bwyllgor sylwadau gan ymgeisydd a oedd wedi cyflawni dwy drosedd goryrru. Hefyd dirymwyd trwydded yrru Cerbyd Hacni/ Llogi Preifat yr ymgeisydd gan awdurdod lleol arall o ganlyniad i gŵyn a wnaed am ei ymddygiad.

Ymddiheurodd y gyrrwr am y troseddau goryrru. Esboniodd fod y troseddau wedi digwydd ar adeg pan oedd yn cael rhywfaint o broblemau domestig. Cymerodd yr Awdurdod Lleol y rhagofalon fel protocol safonol. Nid oedd yr Awdurdod Lleol yn ystyried bod y gyrrwr yn fygythiad i'r cyhoedd.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y gyrrwr yn deall y protocol parthed teithwyr heriol.

PENDERFYNWYD - Bod y cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat yn cael ei gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.55 pm